

# CYNGOR TREF PORTHMADOG



## Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Mawrth 11 2025

### COFNODION

**266.3.25 Presennol:-** Cynghorwyr :- Gwilym Jones; Jeremy Davies; Trefor Jones; Dr Melfyn Edwards; Alwyn Gruffydd; Karena Owens; Carol Hayes; Glenda Murray; Llywelyn Rhys Marian Roberts ( Clerc)

**Absennol :-** Cyng Aled Griffith ( Cadeirydd)

Yn absenoldeb y Cadeirydd cadeirwyd y cyfarfod gan yr Is-Gadeirydd, Cyng Gwilym Jones.

**267.3.25 Ymddiheuriadau :-** Cyng Michael Roberts

**268.3.25. Cadarnhau cywirdeb cofnodion Cyfarfod Llawn Chwefror 11 2025**

Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Glenda Murray, Cyng Karena Owens yn eilio

**269.3.25 Adroddiad y Clerc**

**Harbwr 200** cyfarfod cyntaf wedi bod ar 5.3.25 – mwy na 30 yn bresennol – cyfarfod nesaf ar 19.3.25

**Meinciau** cofnodwyd mai **dim on un fainc** – sef mainc goffa Glenda Burke – **sydd yn perthyn i'r Cyngor Tref**. Mae gweddill y meinciau dan ofal Cyngor Gwynedd.

**Polisi iaith** cofnodwyd fod y Clerc wedi gyrru ebost i'r aelodau yn egluro nad oedd penderfyniad 250.2.25 yn gyfreithlon a bod Polisi Iaith 2024 felly dal mewn grym. Roedd hefyd wedi egluro iddynt sut i weithredu'n gywir os am ei newid yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Mai.

**Cyfraniadau** y Clerc wedi derbyn slipiau derbyn neu lythyr o ddiolch gan 12 allan o'r 14 mudiad gafodd gyfraniad.

**270.3.25 Datgan diddordeb.**

Dim Datganiad o ddiddordeb.

**271.3.25 CEISIADAU CYNLLUNIO**

**(a) Rhif Cais / Application No.: C25/0054/44/LL ( wedi ebostio 12.2.25)**

Lleoliad / Location: 39 Stryd Fawr, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9LR

Bwriad / Proposal: Newid defnydd o delicatessen (A1) i fwyty (A3).

**Penderfynwyd :-** Dim gwrthwynebiad.

**(b) Rhif Cais / Application No.: C25/0133/44/LL ( wedi ebostio 26.2.25)**

Lleoliad / Location: 47 Cefn Y Gader, Morfa Bychan, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9YS

Bwriad / Proposal: Newid defnydd materol o ail gartref (C5) i ddefnydd cymysg o ail gartref (C5) a llety gwyliau tymor byr (C6) Material change of use from second home (C5) to mixed use of second home (C5) and short-term holiday let (C6)

**Penderfynwyd :- gwrthwynebu'r cais** oherwydd :-

- iddo newid o C5 i C6
- ei fod yn amharu ar drigolion a'r gymdogaeth leol
- ei fod yn groes i bolisi Cyngor Gwynedd ar Erthygl 4

**( c ) Rhif Cais / Application No.: C25/0155/44/DT ( wedi ebostio 3.3.25)**

Lleoliad / Location: Manora, 25 Gatws Morfa, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9PF

Bwriad / Proposal: Dymchwel modurdy ac adeiladu estyniad deulawr i'r annedd (ail gyflwyniad o gais C04D/0454/44/LL sydd wedi rhedeg allan) Demolition of garage and construction of 2 storey extension to dwelling (resubmission of expired application C04D/0454/44/LL)

**Penderfynwyd :-** Dim gwrthwynebiad.

**MATERION CYFANSODDIADOL A STAFF**

**272.3.25 Penderfynu ar gytundeb 3 blynedd darparwr torri gwair.**

Yn ôl yr arfer y Clerc wedi hysbysebu yn Yr Wylan ac yn Y Ffynnon ond dim ond un dyfynbris wedi dod i law – gan Gyngor Gwynedd.

**Penderfynwyd:-** derbyn dyfynbris Cyngor Gwynedd a'r Clerc i gadarnhau'r cytundeb yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Glenda Murray yn eilio.

**273.3.25 Penderfynu ar gytundeb 3 blynedd darparwr goleuadau Nadolig**

Y Clerc wedi ymgynghori â'r cwmnïoedd Mega; Lite; Festive Lights a R.J.Electrics am ddyfynbris cytundeb goleuadau Nadolig.

**Penderfynwyd :-** derbyn dyfynbris R.J.Electrics a'r Clerc i gadarnhau cytundeb 3 blynedd R.J.Electrics yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Llywelyn Rhys yn eilio. Hefyd y Clerc i wneud ymholiadau ynglyn â gosod coed Nadolig bychain uwchben pob siop a thrafod ymhellach yn y Pwyllgor Cyllid ar 29.4.25 yn ôl cynnig Cyng Glenda Murray, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

**MATERION I'W DWYN GERBRON :-**

Manteisiodd Cyng Carol Hayes ar y cyfle i groesawu Cyng Jeremy Davies yn swyddogol i'w gyfarfod cyntaf fel aelod dros ward Gest.

**274.3.25 Cyng Carol Hayes :- cynnig bod y Cyngor Tref yn talu i adnewyddu mainc Ann Bullen. ( gweler y llun ymghlwm)**

**Penderfynwyd :-** gweithredu ar y cynnig, Cyng Llywelyn Rhys yn eilio.

**275.3.25 Cyng Trefor Jones :- cynnig gofyn i Gyngor Gwynedd osod pwyntiau gwefru i geir trydan ar faes parcio Llyn Bach.**

**Penderfynwyd :-** gweithredu ar y cynnig a holi Cyngor Gwynedd beth yw ei strategaeth ar gyfer gosod pwyntiau gwefru ar dai preifat ar y stryd, Cyng Jeremy Davies yn eilio.

**276.3.25 Cyng Michael Roberts :- cynnig gwneud cais i Gyngor Gwynedd i ganiatau cŵn yn rhan o'r Parc.**

**Penderfynwyd :-** gadael y mater ar y bwrdd tan 8.4.25.

**277.3.25 Cyng Michael Roberts :- cynnig gofyn i berchennog Capel y Garth i ddiogelu'r safle ( gweler y lluniau ymghlwm)**

**Penderfynwyd :-** gadael y mater ar y bwrdd tan 8.4.25.

**278.3.25 Cyng Aled Griffith :- cynnig holi Cyfoeth Naturiol Cymru :-**

**A oes cynllun i glirio'r giatiau ar y ffosydd ger Cob Crwn yn dilyn stormydd y Gaeaf (gweler llun coeden yn amharu ar y giât cyntaf a'r trydydd?**

**Beth yw cynlluniau at gyfer y tir tu ôl i Premier Inn ac a oes bosib gwneud scrin naturiol o flodau gwyllt ac ati o gwmpas y safle? ( gweler y lluniau ymghlwm)**

**Penderfynwyd :-** gadael y mater ar y bwrdd tan 8.4.25.

**279.3.25 Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. Dyddiad cau Ebrill 8 2025 = Mawrth 29 2025 , ( Rheolau Sefydlog 9 (b) " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor".)**

- **Cyng Alwyn Gruffydd** :- Cynnig cysylltu â Chyngor Gwynedd ac Awdurdod Iechyd Betsi Cadwaladr i ofyn iddynt glirio'r tyfiant rhwng Ysbyty Alltwen â'r ffordd fawr oherwydd risg tân.
- **Cyng Michael Roberts** :- cynnig gwneud cais i Gyngor Gwynedd i ganiatau cŵn yn rhan o'r Parc.
- **Cyng Michael Roberts** :- cynnig gofyn i berchennog Capel y Garth i ddiogelu'r safle
- **Cyng Aled Griffith** :- cynnig holi Cyfoeth Naturiol Cymru :-  
A oes cynllun i glirio'r giatiau ar y ffosydd ger Cob Crwn yn dilyn stormydd y Gaeaf (gweler llun coeden yn amharu ar y giât cyntaf a'r trydydd?  
Beth yw cynlluniau at gyfer y tir tu ôl i Premier Inn ac a oes bosib gwneud scrin naturiol o flodau gwyllt ac ati o gwmpas y safle?

**280.3.25 Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (copi ynghlwm).**

**Penderfynwyd** :- Derbynn y wybodaeth

**GOHEBIAETH :**

281.3.25	GETHIN VAUGHAN JONES C.G.	Cais i orffen y broses o brofi perchnogaeth Cae Pawb yn dilyn ymholiad gan Nat. Grid <b>Penderfynwyd</b> :- derbyn y wybodaeth
282.3.25	DEWI WYN OWEN C.G	Ymateb i E3.1.25 Llwybr Peniel <b>Penderfynwyd</b> :- derbyn y wybodaeth
283.3.25	DEWI WYN OWEN C.G.	Ymateb i E3.1.25 cais i wella cyflwr llwybr Penmount <b>Penderfynwyd</b> :- derbyn y wybodaeth
284.3.25	GERAINT OWEN C.G.	Ymateb i 254.2.25 diffyg ymateb swyddogion C.G. a copi o Aros am Ateb mis Mawrth 2025 <b>Penderfynwyd</b> :- derbyn y wybodaeth a Cyng Carol Hayes am gofnodi ei bod yn falch i gael rhywun i gysylltu â nhw pan fo angen cwyno am arafwch ymateb.
285.3.25	ALED DAVIES C.G.	Ymateb i 233.1.25 gwahoddiad i gyfarfod mis Mawrth <b>Penderfynwyd</b> :- derbyn y wybodaeth a'i wahodd i gyfarfod 8.4.25 yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.
286.3.25	STEFFAN JONES C.G.	Ymateb i 129.10.24 cwyno am leoliad y ddraig a rhesymau dros ei symud <b>Penderfynwyd</b> :- derbyn y wybodaeth
287.3.25	NEUADD GOFFA TREMADOG	Llythyr diolch am gyfraniad ariannol <b>Penderfynwyd</b> :- derbyn y wybodaeth
288.3.25	SIMON PARKER	Ymateb i 261.2.25 Ysgol Ddeintyddiaeth ym Mangor <b>Penderfynwyd</b> :- derbyn y wybodaeth
289.3.25	JOHN PHILIP PRITCHARD C.G.	Ymateb i 162.11.24 holi am reolau cynllunio ynglyn â newid defnydd busnes <b>Penderfynwyd</b> :- derbyn y wybodaeth
290.3.25	RHIAN WYN WILLIAMS	Ymateb i 195.12.24 cais am 2 loches bws newydd

	C.G.	<b>Penderfynwyd :-</b> derbyn y wybodaeth
291.3.25	HELEDD EVANS	Ymateb i 255.2.25 Argymhellion y Comisiwn Cymunedau Cymraeg <b>Penderfynwyd :-</b> derbyn y wybodaeth
292.3.25	DEWI WYN OWEN C.G.	Ymateb i 251.2.25 cais am finiau baw ci ac arwyddion ar lwybr Peniel <b>Penderfynwyd :-</b> derbyn y wybodaeth a chadw golwg ar y sefyllfa dros gyfnod yr haf.
293.3.25	DAFYDD CHARLES WILLIAMS C.G.	Ymateb i 200.12.24 gorsafoedd beics <b>Penderfynwyd :-</b> derbyn y wybodaeth a derbyn y cynnig i osod gorsafoedd beics ar y ddau ben i lwybr beicio'r Cob yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Jeremy Davies yn eilio.
294.3.25	ADRAN LLWYBRAU C.G.	Dyfnbris torri llwybrau 2024 – 2027 Wedi trafod eisoes yn 272.3.25
295.3.25	SIAN PARRI	Polisi gosod tai cyffredin Cyngor Gwynedd <b>Penderfynwyd :-</b> derbyn y wybodaeth a datgan cefnogaeth trwy lythyr yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.
296.3.25	ADRAN CYNLLUNIO C.G.	Canllaw Cynllunio Atodol – <b>linc wedi ei ebostio ar 24.2.25</b> <b>Penderfynwyd :-</b> derbyn y wybodaeth
297.3.25	Y GANOLFAN	Llythyr diolch am gyfraniad <b>Penderfynwyd :-</b> derbyn y wybodaeth
298.3.25	CYFEILLION BORTH Y GEST	Llythyr diolch am gyfraniad <b>Penderfynwyd :-</b> derbyn y wybodaeth
299.3.25	HAYDN JONES C.G.	Dathlu 50 Y Ganolfan <b>Penderfynwyd :-</b> derbyn y wybodaeth
300.3.25	FESTIVE LIGHTING	Goleuadau Nadolig 2025 Wedi trafod eisoes yn 273.3.25.

### **301.3.25 MATERION ARIANNOL :**

#### **Derbyniadau :**

H.S.B.C.	Llog Banc Ionawr Chwefror 2025	£53.62
----------	--------------------------------	--------

#### **Lwfansau Cynghorydd 2024-2025 ( Lwfans £156 a threuliau £52 pro rata)**

Cyng. Gwilym Jones	£208.00
Cyng. Dr Melfyn Edwards	£208.00
Cyng. Michael Roberts	£208.00
Cyng. Llywelyn Rhys	£208.00
Cyng. Alwyn Gruffydd	£208.00
Cyng. Trefor Jones	£156.00
Cyng. Karena Owens	£156.00
Cyng. Glenda Murray	£104.00

**Nodwyd bod taliad rhif 13 yn ychwanegol i'r Rhaglen wreiddiol ac awdurdodwyd y taliadau**

**canlynol yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio:-**

1	Clerc	Llinell ffôn a Wê Chwefror 2025	£ 66.88
2	Clerc	Cyflog Clerc 2025 Chwefror	£1,597.44
3	Cyllid a Thollau ei Fawrhydi	Treth Incwm cyflog Clerc Chwefror 2025	£ 399.36
4	G.L.JONES	Gosod giât newydd Cae Chwarae Bodawen	£3,930.00
5	XEROX	Llogi llungopîwr o 1.4.25 i 30.6.25 ac yswiriant	£164.40
6	Safleswyddi.com	Hysbyseb swydd Clerc	£156.00
7	HUWS GRAY	Cadwyn a clo i Giât Bodawen Taliad cerdyn ar 27.2.25	£32.67
8	CYNGOR GWYNEDD	Cytundeb torri gwair a llwybrau 2024	£8,294.52
9	CYNGOR GWYNEDD	Gosod a thynnu coed Nadolig 2024	£2,380.50
10	ARENA GROUP	Llungopïo hyd at 15.2.25	£6.91
11	MART DESIGN AND PRINT	Bwrdd gwybodaeth Madocks	£309.60
12	UN LLAIS CYMRU	Tâl Aelodaeth 2025-2026	£1,003.00
13	ALAN G. JONES	Gosod fflagiau	£432.00

( Mae copi o bob sic ar gael i'w archwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

Daeth y cyfarfod i ben am 20.40

*Marian Roberts*  
14.3.25